Monitro amrywioldeb cynrychiolwyr cwrs

Beth ydyn ni'n ei olygu?

Mae cynrychiolwyr yn fyfyrwyr sydd naill ai wedi cael eu hethol neu eu dethol i fod yn llais dros gorff ehangach y myfyrwyr ar faterion academaidd. Ond os ydynt am fod yn wirioneddol gynrychioliadol o holl gorff y myfyrwyr, argymhellir y caiff eu demograffeg ei monitro fel bod modd mynd ati i sicrhau bod amrywiaeth o ddysgwyr yn cyfranogi.

Mae cynrychiolwyr ar eu mwyaf effeithiol yn eu rolau pan fydd modd iddynt gyfleu adborth a barn amrywiaeth eang o ffynonellau. Gall hyn olygu dysgwyr o wahanol gyrsiau, prentisiaethau, neu lefelau dysgu; gall olygu dysgwyr sy'n CLlE, yn LHDT+, neu'n anabl; a gall olygu dysgwyr hŷn, dysgwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, neu ddysgwyr rhan amser. Mae'n hawdd iawn gweddu i'r 'dysgwr cyffredinol' ac anghofio am wir amrywioldeb dysgwyr sy'n astudio yn eich sefydliad.

Pam monitro'r amrywioldeb?

Mae cynrychiolwyr ar eu mwyaf effeithiol pan fydd modd iddynt gyfleu adborth a barn amrywiaeth eang o

Er ei fod yn ymddangos fel cwestiwn amlwg i'w ofyn, mae sawl mantais i fonitro amrywioldeb eich cynrychiolwyr.

Myfyrwyr

- Mwy o gynrychiolaeth gan amrywiaeth o ddysgwyr
- Mwy o gyfleoedd i roi adborth a chreu newid
- Mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses ac nad ydynt yn cael eu hanwybyddu

Sefydliad

- Gwell ymgysylltu â llais y dysgwr
- Darparu tystiolaeth y gellir ei defnyddio fel sail ar gyfer gwaith yn y dyfodol i wella amrywioldeb y cynrychiolwyr
- Gallu cyfrannu at brosiectau allanol, fel Athena SWAN
- Creu meincnod i weithio a gwella arferion sy'n ymwneud ag amrywioldeb y cynrychiolwyr

Ble i ddechrau

Caiff amrywioldeb cynrychiolwyr ei mesur mewn tri cham: casglu'r wybodaeth, ei dadansoddi, ac yna dod o hyd i ffyrdd o greu effaith. Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn cyflawni pob un o'r tri cham hyn os ydych yn dechrau monitro amrywioldeb eich cynrychiolwyr, neu cewch lawer o ddata sy'n cyflawni dim. Bydd rhwystrau i'w goresgyn hefyd, yn enwedig yn y sector AB. Cyn belled â'ch bod yn barod, fodd bynnag, gall hyn fod yn brosiect gwerth chweil.

Cam Un: Casglu Ystadegau Amrywioldeb

Nid yw'r rhan fwyaf o golegau'n casglu data ar amrywioldeb cynrychiolwyr, felly mae angen mynd ati i'w gasglu. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw trwy arolwg. Gweler holiadur amrywioldeb UCM yn yr adran adnoddau isod.

Ystyriwch y math o gwestiynau rydych yn eu holi, sut rydych yn eu holi, a'u diben.

Ysgrifennu'r arolwg

Wrth ysgrifennu arolwg monitro amrywioldeb, mae'n bwysig ystyried y math o gwestiynau rydych yn eu holi, sut rydych yn eu holi, a'u diben. Ystyriwch yr hyn rydych am ei ddarganfod a gweithiwch yn ôl.

Gofynnwch am fewnbwn y dysgwyr i'r holiadur wrth ysgrifennu, a diwygiwch ef os bydd angen. Ar ôl i'r dysgwyr gymryd yr holiadur, gofynnwch am adborth ar y cam hwn hefyd, i **sicrhau bod y cwestiynau rydych yn eu holi'n briodol ac yn hawdd eu deall**.

Rhoi'r arolwg ar waith

Fel unrhyw arolwg, rhaid i chi ddewis sut y byddwch yn ei roi ar waith. Os oes gennych arolwg eisoes sy'n mynd at y cynrychiolwyr, mae'n bosib y bydd modd i chi ystyried cynnwys ambell gwestiwn sy'n ymwneud â monitro amrywioldeb, yn hytrach na chreu arolwg ar wahân. Os na, efallai y gallwch ei ymgorffori yn eich diwrnod hyfforddi ar gyfer cynrychiolwyr. Gall fod yn rhan o'r adborth rydych yn gofyn amdano ar ddiwedd yr hyfforddiant, neu gall fod yn rhan o'r hyfforddiant ei hun. Mae Cymdeithas Myfyrwyr Caeredin yn cynnwys holiadur monitro amrywioldeb fel rhan o'u modiwl hyfforddi ar-lein ar gyfer cynrychiolwyr. Nid yw'n orfodol, ond cafwyd lefel ardderchog o ymateb.

Bydd cynnwys holiadur amrywioldeb mewn arolwg sydd eisoes yn bodoli yn gwneud y monitro'n haws.

Os ydych yn creu arolwg o'r newydd, bydd angen i chi ystyried a fydd yn gweithio orau ar ffurf arolwg ar-lein neu ar bapur, pryd y byddwch yn dechrau derbyn ymatebion, a sut y byddwch yn ei hyrwyddo. Argymhellir ei gynnwys mewn arolwg neu ddigwyddiad sydd eisoes yn bodoli. Bydd hyn yn gwneud y rhan hon o'r broses fonitro yn haws.

Pan fyddwch yn gofyn i'ch cynrychiolwyr am yr wybodaeth hon, mae'n bwysig dweud wrthynt pam eich bod yn ei wneud, sut y bydd yn effeithio arnynt, a rhoi'r opsiwn iddynt ddewis peidio â chwblhau'r ffurflen, neu ateb 'well gan beidio â dweud' ar bob cwestiwn. Ni ddylai darparu'r math hwn o wybodaeth fel gwirfoddolwr fod yn orfodol, ond os gallwch ddangos sut bydd y sefydliad yn elwa, gobeithio y bydd mwyafrif eich cynrychiolwyr yn deall ac y byddant am ei gwblhau beth bynnag.

Cam Dau: Dadansoddi'r canlyniadau

Mae rhai sefydliadau'n cynnal ymchwil i ddemograffeg eu cynrychiolwyr heb wneud dim â'r wybodaeth. **Gellir dadlau mai hwn yw'r cam anoddaf**, gan ei fod yn cymryd llawer o amser ac yn peri mwy o gwestiynau nag atebion yn aml.

Ffordd dda o ddechrau, os bydd yn bosib, yw cymharu'r data rydych wedi'i gasglu gydag unrhyw ddata sydd gan y coleg ar ei fyfyrwyr yn gyffredinol. Drwy gymharu hyn, cewch weld pa mor gynrychioladol yw eich cynrychiolwyr. Er enghraifft, mae'n bosib bod canran isel iawn o'ch cynrychiolwyr yn ddysgwyr rhan amser, ond os oes gan eich sefydliad nifer isel iawn o ddysgwyr rhan amser, gall hon fod yn ganran gynrychiadol o hyd.

Cam arall fyddai monitro demograffeg, nid yn unig eich cynrychiolwyr, ond hefyd y rheiny sy'n enwebu eu hunain ar gyfer y rolau. Byddai hyn yn golygu mwy o ddadansoddi, felly efallai na fydd hynny'n bosibl gan ddibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael.

Cam Tri: Gweithredu newid

Unwaith y byddwch wedi casglu'r wybodaeth a darganfod lle mae'r bylchau yn eich cynrychiolaeth, y cam pwysicaf yw llenwi'r bylchau hynny a gwella cynrychiolaeth a chynhwysiant yn gyffredinol.

Gall hyn fod yn rhywbeth mor syml â sicrhau eich bod yn hyrwyddo cynrychiolwyr cwrs ar bob campws neu anfon e-byst at yr holl ddysgwyr (nid yn unig yn ystod tiwtorialau ar gyfer cyrsiau llawn amser, er enghraifft), neu gall fod yn rhywbeth mwy sylfaenol i strwythurau'r coleg. Yn Undeb Myfyrwyr Goldsmiths, er enghraifft, darganfuwyd bod ganddynt gyfran fawr o fyfyrwyr anabl na chânt eu cynrychioli. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, defnyddiwyd bwrsari gan CCAULl i gychwyn prosiect a recriwtiodd 'Gynrychiolydd Hygyrchedd a Chynhwysiant' ar gyfer pob adran. O ganlyniad, mae'r sefydliad wedi ymgymryd â nifer o fentrau newydd i sicrhau ei fod yn fwy hygyrch a chynhwysol i fyfyrwyr anabl.

Nid yw ehangu cyfranogiad byth yn hawdd, ond gyda'r data rydych wedi'i gasglu, gallwch weld a gaiff y newidiadau rydych wedi'u creu unrhyw effaith. Trwy osod y meincnod, gallwch ailasesu'r ymgysylltu flwyddyn ar ôl blwyddyn a darganfod yr hyn sydd wedi gweithio ai peidio.

Mae'n bwysig cynnwys dysgwyr ym mhob cam.

Mae'n bwysig cynnwys dysgwyr yn y camau hyn, gan eu bod yn gallu eich helpu i ddarganfod yr hyn fydd yn gweithio o ran ymgysylltu â dysgwyr anodd eu cyrraedd. **Heb fonitro'r amrywioldeb yn gyntaf, ni fyddwch yn gwybod pwy yw eich dysgwyr anodd eu cyrraedd**. Dyna'r hyn sy'n gwneud y broses hon mor werthfawr.

Rhwystrau

Fel y soniwyd yn gynharach, yn aml iawn bydd y mathau hyn o ddadansoddi'n peri mwy o gwestiynau nag atebion. Mae'n bosib y bydd angen gwneud llawer iawn o waith i gael canlyniadau ystyrlon iawn. Dyma lle disgwylir i fwyafrif y sefydliadau wynebu rhwystrau diffyg amser, arbenigedd ac adnoddau staff i gyflawni'r math hwn o waith. Mae modd goresgyn y rhwystrau hyn, fodd bynnag, a gall canlyniadau'r gwaith hwn ddangos tueddiadau hynod ddiddorol yn eich cynrychiolwyr a helpu i sbarduno gwaith i helpu i wella amrywioldeb.

Un o'r prif rwystrau fydd os caiff **data ar gorff y myfyrwyr ei gasglu ond ei atal**, felly ni fydd modd cymharu. Mae hyn yn golygu bod angen ennyn diddordeb yr adrannau sy'n meddu ar yr wybodaeth hon fel eu bod yn deall pwysigrwydd y gwaith a sut bydd y sefydliad cyfan yn elwa.

Mae **diffyg amser staff** yn broblem hefyd. Os na neilltuwyd y dasg hon i unrhyw aelod o staff fel rhan o'i oriau craidd, mae'n annhebygol y bydd modd cwblhau'r gwaith. Gellid dirprwyo ambell dasg i wirfoddolwyr, fel cofnodi data, er mwyn gwneud y mwyaf o amser y staff sy'n gweithio ar y prosiect.

Os oes **diffyg arbenigedd staff** ar y pwnc hefyd, mae hyfforddiant ar gael i helpu gyda hyn. Hefyd, mae'n bosib cydweithio â cholegau eraill er mwyn rhannu'r arbenigedd sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.

Rhwystr pwysig arall sy'n hanfodol ei ystyried yw rheoliad newydd **Gwarchod Data Cyffredinol** yr UE. Os bydd eich sefydliad yn casglu data am eich cynrychiolwyr, rhaid sicrhau eich bod yn cadw at y deddfau newydd a fydd ar waith o 25 Mai 2018 ymlaen. Bydd y gyfraith hefyd yn berthnasol i unrhyw beth a wnewch â'r data, oni fydd yn gwbl ddienw. Mae hyn yn cynnwys ei gasglu, ei storio, ei weithredu a'i gadw. Rydym yn argymell edrych ar y canllawiau ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sydd i'w gweld yn yr adran adnoddau, i weld sut y bydd hyn yn effeithio arnoch chi.

Crynodeb

Mae dysgwyr a'r sefydliad yn elwa'n sylweddol o fonitro amrywioldeb eich cynrychiolwyr cwrs. Mae'n gorff mawr o waith, felly efallai y bydd angen goresgyn ambell rwystr, fel diffyg amser ac adnoddau staff. Os gellir mynd i'r afael â'r rhain, gall canlyniadau eich arolygon o amrywioldeb eich cynrychiolwyr cwrs fod yn galonogol a gall wneud gwir wahaniaeth i strwythurau cynrychioliaeth eich dysgwyr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Wise Cymru (manylion cysylltu isod).

Adnoddau

- Ffurflen Fonitro Amrywioldeb UCM
- Dolenni i adnoddau gan ESEC, gan gynnwys 'Giving Disabled Students a Voice in your Course Rep System' gan Goldsmiths, a 'Monitoring the Diversity of Course Reps' gan sparqs a CM Caeredin
- Canllawiau ICO ar y GDPR

Jessica Rumble,
Ymgynghorydd Prif / Lead Consultant
jessica.rumble@nus-wales.org.uk

Charlotte West,
Ymgynghorydd / Consultant
charlotte.west@nus-wales.org.uk